



Cynllun Rheoli Llosgi yng Nghymru

I gael copïau ychwanegol o'r ddogfen hon cysylltwch â:

Y Gangen Biotechnoleg ac Iechyd Planhigion
Yr Is-adran Gwasanaethau Technegol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3596

E-bost: planthealthandbiotech@wales.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru:

www.cymru.gov.uk/cefngwlad (ewch i 'ffermio' neu chwiliwch am Llosgi Grug a Glaswellt ar y wefan).

Cynllun Rheoli Llosgi yng Nghymru

Dylai'r tirfeddiannwr/rheolwr ddilyn y cyfarwyddyd yn y Cod Llosgi Grug a Glaswellt (fel y'i diwygiwyd yn 2008). Gallwch weld copi ohono ar wefan y Cynulliad neu yn swyddfa leol yr Adran Materion Gwledig (AMG), Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae mynd yn groes i Reoliadau Grug a Glaswellt etc (Llosgi) (Cymru) 2008 yn drosedd o dan adran 20(2) o Ddeddf Ffermio'r Bryniau 1946.

Yn ogystal â hyn, mae'r rheoliadau diwygiedig yn ei gwneud hi'n ofynnol i reolwyr tir lenwi'r cynllun llosgi canlynol a'i ddiweddarau. **Ni fydd angen i chi gyflwyno copi o'ch cynllun ar ôl ei lenwi, ond rhaid i chi fod â chopi diweddar ar gael i'w archwilio gan swyddogion awdurdodedig Llywodraeth Cynulliad Cymru.** Byddai peidio gwneud hyn yn groes i Reoliadau Grug a Glaswellt etc. (Llosgi) (Cymru) 2008 y cyfeirir atynt uchod, ac o ganlyniad i hynny fe allech fod yn agored i erlyniad neu ddirwy. Byddai hefyd yn groes i ofynion trawsgydymffurfio Cynllun y Taliad Sengl, a gallai arwain at gosb ariannol drwy'r cynllun hwnnw.

Ni chaniateir llosgi ond ar y dyddiadau canlynol: **1 Hydref - 31 Mawrth** ar yr ucheldir; **1 Tachwedd - 15 Mawrth** ym mhob man arall; **ar adegau eraill** gyda Thrwydded.

Pwrpas y cynllun

Bydd y broses o lenwi'r cynllun yn eich helpu i ddatblygu ymagwedd tymor canolog i dymor hir (5+ mlynedd) ar gyfer rheoli tir drwy losgi, gan gynnwys asesu'r risgiau'n gysylltiedig â hynny. Bydd yn eich helpu i:

- ddynodi, ystyried a bodloni'r gofynion cyfreithiol o ran rheoli llosgi
- dilyn egwyddorion arfer gorau wrth ddatblygu a gweithredu cynllun rheoli llosgi
- deall a gwerthfawrogi'r cyfarwyddyd diweddaraf gan wyddonwyr ynghylch effeithiau arferion llosgi da a gwael ar yr amgylchedd ehangach
- dynodi unrhyw hyfforddiant/cymwysterau sydd eu hangen i sicrhau arferion llosgi diogel a chymwys
- lleihau eich atebolrwydd os bydd rhywbeth yn digwydd mynd o'i le

Sut fydd y broses yn gweithio

Rhennir y cynllun yn ddwy adran y mae'n rhaid eu cwblhau er mwyn creu cynllun llosgi:

- Creu map ar gyfer y cynllun llosgi
- Cwblhau rhestr wirio

RHAID I CHI DDARLLEN Y CANLLAW TECHNEGOL ATEGOL AR SUT I BARATOI CYNLLUNIAU LLOSGI CYN LLENWI ADRAN 1 a 2.

ADRAN 1

Creu map cynllun llosgi a rhaglen losgi

1 Blwyddyn dechrau'r Cynllun Llosgi

2 Beth yw amcan cyffredinol y llosgi arfaethedig?

- a) Cynyddu cynhyrchiant er budd y stoc amaethyddol
- b) Rhoi mynediad i stoc drwy llystyfiant trwchus
- c) Gweithredu'n rhan o raglen er mwyn rheoli grugieir
- d) Adfywio'r llystyfiant yn rhan o raglen gadwraeth am resymau'n ymwneud â chynefin neu rywogaeth

(Ticiwch y blwch priodol)

3 Beth yw natur y llystyfiant yr ydych yn ystyried ei losgi

- clwstwr sy'n cynnwys grug yn bennaf?
- cymysgedd o rug ac eithin gorllewinol?
- glaswelltir?
- cymuned gymysg?

4 Mapio ardal y cynllun

Defnyddiwch fap Arolwg Ordnans safonol ar raddfa 1:25000 neu'r map IACS o'r tir lle rydych yn bwriadu llosgi. Marciwch ar y map derfyn y tir yr ydych yn dymuno ei losgi. Atodwch y map i'r cynllun hwn.

Rhowch amcangyfrif o faint yr ardal mewn hectarau

5 Mapio parthau dim llosgi

Canfyddwch a *marciwch yn glir* ar y map yr ardaloedd sensitif hynny na ddylid eu llosgi, h.y. parthau dim llosgi (gweler y cod a'r canllaw technegol). Cyfrifwch faint y parthau mewn hectarau.

Rhowch amcangyfrif o faint y parthau dim llosgi

6 Cyfrifwch gyfanswm yr ardal yr ydych am ei llosgi

Tynnwch yr ateb i gwestiwn 5 o'r ateb i gwestiwn 4.

Amcangyfrif o gyfanswm yr ardal sydd i'w llosgi (ha)

7 Amllder y llosgi

Cyfrifwch hyd eich cylchdro llosgi mewn blynyddoedd (gweler y canllaw).

Beth yw hyd eich cylchdro
(rhaid i chi nodi lleiafswm o 10 mlynedd)?

8 Cyfrifwch gyfanswm yr ardal sydd i'w llosgi bob blwyddyn

Dylid rhannu'r ateb i gwestiwn 6 â'r ateb i gwestiwn 7.

Uchafswm yr ardal y dylech ei llosgi bob blwyddyn yw

9 A ydych wedi mynychu cwrs ardystiedig ar losgi grug a glaswellt a llwyddo ar y cwrs hwnnw?

DO NADDO

Os 'DO', nodwch rif y dystysgrif a dyddiad
mynychu'r cwrs

ADRAN 2 - Rhestr Wirio

Paratoi ar gyfer llosgi

Mae'n bwysig paratoi'n drylwyr cyn gwneud unrhyw waith llosgi. Ceir nifer o ofynion cyfreithiol y mae'n **rhaidd** i chi eu bodloni cyn mynd yn eich blaen. Bydd yr adran hon yn eich helpu i fod yn ymwybodol o'r rhain a gwneud cynlluniau priodol. Bydd hefyd yn rhoi gwybod i chi am yr arferion iechyd a diogelwch gorau ac yn eich helpu i ddangos eich bod wedi cymryd pob cam rhesymol i leihau'r risg o anaf i weithwyr a difrod i eiddo cyfagos.

- 1** Rhaid cael digon o bobl a chyfarpar wrth law bob amser i reoli'r llosgi; yr hyn sydd fwyaf diogel yw llosgi gyda thri neu fwy o weithwyr. Dylid sicrhau un gweithiwr fesul 5-10m ar flaen tân byw, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Faint o bobl sydd wrth law i'ch helpu?

- 2** Dylid rhoi o leiaf 24 awr ond dim mwy na saith diwrnod o rybudd ysgrifenedig o'ch bwriad i losgi i berchnogion neu breswylwyr y tir dan sylw, ac i unigolion sy'n gyfrifol am dir cyfagos. Dylai'r rhybudd gynnwys dyddiadau, amserau, lleoliad a maint y llosgi.

Lluniwch restr o berchnogion a phreswylwyr eiddo cyfagos:		
Pryd y cawsant wybod?	Blwyddyn 1	
	Blwyddyn 2	
	Blwyddyn 3	
	Blwyddyn 4	
	Blwyddyn 5	
Pryd fydd y llosgi'n digwydd?	Blwyddyn 1	
	Blwyddyn 2	
	Blwyddyn 3	
	Blwyddyn 4	
	Blwyddyn 5	

3 Rhaid i chi fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol i sicrhau na chaiff pobl ac anifeiliaid eu niweidio, ac na chaiff eiddo cyfagos ei ddifrodi (Gweler y canllaw yn y Cod Llosgi).

Pa ragofalon ydych chi wedi'u gweithredu?

4 Hysbyswch eich Gwasanaeth Tân ac Achub Lleol

Nodwch enw a rhif ffôn eich unigolyn cyswllt yn y gwasanaeth tân lleol

A ydych chi wedi'u hysbysu ynglŷn â dyddiad, amser a lleoliad y llosgi arfaethedig?

DO NADDO

A ydych chi wedi cadarnhau eich bod yn bwriadu llosgi ar y diwrnod hwnnw?

DO NADDO

Pa ddulliau sydd gennych i gysylltu am fwy o gymorth ac/neu gysylltu â'r gwasanaeth tân ar y safle ar ddiwrnod y llosgi e.e. Radio CB neu ffôn symudol o fewn cyrraedd y rhwydwaith? Nodwch ...

5 A oes gennych y cyfarpar cywir i gynnau a rheoli'r tân, ac a yw'n gweithio'n iawn?

Pa fath o gyfarpar rheoli tân sydd gennych chi, e.e. curwyr amrywiol, chwistrellwyr niwl pwysedd uchel ac ati?

Pryd wnaethoch chi wirio i sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n iawn?

A oes gennych unrhyw ddarnau o gyfarpar sbâr rhag ofn i'r amgylchiadau newid, neu i'r offer fethu gweithio?

OES NAG OES

6 Dylai'r holl staff fod wedi cael hyfforddiant ar arferion diogel a dylent wisgo cyfarpar diogelwch personol e.e. masgiau, menig lledr, oferôls gwrthdan.

A yw'r bobl sy'n eich helpu i losgi wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r cyfarpar sydd gennych? DO NADDO

A yw'r staff wedi cael hyfforddiant digonol ar sut i reoli lloggi? DO NADDO

A oes ganddynt gyfarpar amddiffyn? OES NAG OES

A yw unrhyw un o'ch staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf? DO NADDO

A oes pecyn cymorth cyntaf ar gael ar y safle? OES NAG OES

7 Ffurfiwch neu ymunwch â grŵp diogelu rhag tân lleol neu grŵp tebyg.

Mae'n bosib bod grwpiau o'r fath i'w cael mewn rhai ardaloedd. Maent yn darparu trefniant ffurfiol i dirfeddianwyr, rheolwyr a'r Gwasanaeth Tân ac Achub gydlyn eu hadnodau a darparu cymorth y naill i'r llall os bydd tanau yn mynd y tu hwnt i reolaeth.

Os oes gennych chi grŵp lleol, pwy yw eich unigolyn cyswllt?